

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Practis
Deintyddol Bryant**

7 Gorffennaf 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodology.....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bryant, yn 17-19 Stryd Fawr, Treorci yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 7 Gorffennaf 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y Claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

2. Methodology

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal¹. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011³. Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Pelydriad Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddiaeth Cyffredinol (GDC) ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys: :

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Bryant yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treorci. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Practis Deintyddol Bryant yn darparu gwasanaethau'r GIG yn bennaf, ond mae hefyd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae Practis Deintyddol Bryant yn bractis hyfforddi sefydledig ar gyfer deintyddion gyda Deoniaeth Cymru (Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ol-raddedig). Ar adeg yr arolygiad, roedd un deintydd yn y practis yn ymgymryd â blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol dan arweiniad y prif ddeintydd.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un deintydd dan hyfforddiant, un hylenydd, dau dderbynydd, 10 nyrs ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau deintyddol cyffredinol
- Llawfeddygaeth y geg a deintyddiaeth gosmetig
- Mewnblaniadau deintyddol
- Orthodonteg (preifat)
- Botocs.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Bryant yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron AGIC yn gadarnhaol iawn. Roedd gan y practis system dda i gael safbwyntiau cleifion yn rheolaidd a dadansoddi adborth fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaol. Gwnaethom awgrymu y dylid gwella'r ffordd yr oedd y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn y man aros fel ei bod yn hawdd i'r cleifion ei gweld.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod yr holl ddeintyddfeydd yn amlwg yn lan, yn daclus ac mewn trefn. Gwelsom fod gan y practis systemau addas ar waith er mwyn helpu i warchod cleifion rhag y risg o draws-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cynnal a

chadw dyddiol y cyfarpar glanhau. Gwelsom hefyd fod angen bod yn gyson o ran dyddio offer er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod storio a argymhellir. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a edrychwyd arnynt ar y cyfan yn dangos nodiadau priodol, ond nodwyd rhai gwelliannau y dylid eu gwneud.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd staff y siaradwyd â nhw ar y diwrnod eu bod yn hapus yn eu swyddi a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Gwnaethom hefyd siarad gyda'r deintydd sylfaen dan hyfforddiant a gadarnhaodd ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan y staff yn y practis. Awgrymwyd y dylai'r practis gadw cofnodion cyflawn ar statws brechu'r holl staff clinigol. Hefyd, roedd angen diweddarau'r weithdrefn gwyno.

Gwelsom fod y practis yn amlwg yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda i ddarparu amgylchedd diogel i gleifion sy'n derbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau fod gwybodaeth electronig am gleifion yn ddiogel ac yn gyfrinachol, ond awgrymwyd y dylai gwybodaeth am gleifion sy'n cael ei storio mewn cabinet ffeilio gael ei glôr pan nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn rhwystro mynediad heb ei awdurdodi.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dyweddod y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron AGIC yn gadarnhaol iawn. Roedd gan y practis system dda i gael safbwyntiau cleifion yn rheolaidd a dadansoddi adborth fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaol. Gwnaethom awgrymu y dylid gwella'r ffordd yr oedd y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn y man aros fel ei fod yn hawdd i'r cleifion ei gweld.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis i rannu holiaduron AGIC er mwyn cael safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarparwyd. Cwblhawyd deunaw o'r holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd gan y practis a'u bod yn cael eu croesawu gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym nad oedden nhw wedi cael unrhyw oedi cyn cael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y rheiny a oedd wedi cael oediad nad oedd hyn yn digwydd yn aml nac am gyfnod hir o amser.

Roedd sampl o sylwadau cleifion (gyda chaniatâd y rheiny a gwblhaodd holiaduron AGIC) yn cynnwys y canlynol:

“Hapus iawn, byddwn yn ei argymell yn gryf.”

“Rwyf wedi bod yn dod yma am nifer o flynyddoedd ac rwyf yn fodlon iawn.”

“Yr unig beth yr hoffwn ei ychwanegu yw fy mod yn hapus iawn gyda phob agwedd ar y practis hwn. Cyfeillgar, proffesiynol a bob amser yn cynnig croeso cynnes.”

“Rwyf yn hapus iawn gyda’r practis a’r holl staff. Gan fy mod i ofn deintyddiaeth yn fawr iawn maen nhw wedi bod yn amyneddgar bob amser. 10 allan o 10 gen i.”

“O fod wedi esgeuluso fy nannedd am lawer rhy hir, gwnes apwyntiad yn anfoddog. Cefais apwyntiad yn fuan, ac roedd fy nhriniaeth yn gyflym, ac yn ddi-boen. Roedd y staff yn hynod o gynorthwyol ac yn fy nghefnogi drwy gydol fy nhriniaeth. Mae fy ofn o’r deintydd yn llawer llai ers mynychu’r practis hwn.”

Dyweddodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd wedi’i arddangos gyda rhif cyswllt mewn argyfwng a chadarnhawyd fod rhif cyswllt yn cael ei ddarparu fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Dyweddodd yr holl gleifion eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am y driniaeth. Dywedodd staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod gyda chleifion a gwelsom dystiolaeth o wedi’i gofnodi yn nodiadau cleifion.

Roedd system gwneud apwyntiadau hyblyg ar waith gan alluogi gwneud apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail achos brys. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom siarad gydag un claf oedd yn cael ei weld ar gyfer apwyntiad brys yr un diwrnod a dywedwyd wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw anawsterau gyda hyn.

Roedd taflenni gwybodaeth am y practis ar gael yn y man aros. Hefyd, roedd gan y practis daflenni a phosteri yn ymwneud â hybu iechyd yn y manau aros, gan gynnwys stopio ysmegu, ymwybyddiaeth am gancr y geg ac ystod o wybodaeth am driniaeth ac iechyd y geg. Hefyd, efallai yr hoffai’r practis ystyried sut y gallant wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, ffont/testun mwy a darparu’r wybodaeth mewn ieithoedd

eraill gan gynnwys Cymraeg. Gellir asesu'r angen am hyn drwy gael adborth gan gleifion.

Roedd gan y practis system dda i gael safbwyntiau cleifion drwy roi holiaduron i gleifion bob tro yr oedden nhw'n llenwi ffurflen hanes meddygol. Dywedwyd wrthym fod adborth o'r holiaduron hyn yn cael eu dadansoddi'n fisol ac yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd practis. Roedd hyn yn golygu fod y practis yn defnyddio adborth cleifion fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd blwch awgrymiadau hefyd ar gael yn y dderbynfa, ond nodwyd y byddai hwn yn elwa ar fod yn fwy amlwg i gleifion.

Gwnaethom ofyn am y weithdrefn gwyno, dywedodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gwynion wedi'i gynnwys mewn hysbysiad gwybodaeth am y practis ger y dderbynfa a nodwyd rhestr o dan gownter y dderbynfa o sefydliadau y gallai'r cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gwyn. Roedd taflen wybodaeth ar weithdrefn gwyno'r GIG dan y teitl 'Gweithio i Wella' hefyd ar gael. Gwnaethom sylwi fod y darnau hyn o wybodaeth am gwyno wedi'u lleoli mewn manau gwahanol o amgylch ardal y dderbynfa yn hytrach na fel arddangosfa ganolog, gan ei gwneud yn anoddach i gleifion gael mynediad hawdd at yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis arddangos y weithdrefn gwyno llawn ac ystyried sut i wneud hwn yn amlwg iawn i'r cleifion (e.e. drwy gynnwys yr holl wybodaeth am gwyno ar boster neu arddangosfa ganolog).

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu'n ddiogel i gleifion. Gwelsom fod yr holl ddeintyddfeydd yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn trefn. Gwelsom fod gan y practis systemau addas ar waith er mwyn helpu i warchod cleifion rhag y risg o draws-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cynnal a chadw dyddiol y cyfarpar glanhau. Gwelsom hefyd fod angen bod yn gyson o ran dyddio offer er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod storio a argymhellir. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a edrychwyd arnynt ar y cyfan yn dangos nodiadau priodol, ond nodwyd rhai gwelliannau y dylid eu gwneud.

Cyfleusterau Clinigol

Edrychom ar gyfleusterau clinigol y pump deintyddfa yn y practis a gwelwyd fod y rhain yn cynnwys cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd pob deintyddfa'n amlwg yn lân, yn daclus ac mewn trefn. Gwelsom dystiolaeth hefyd o brofi offer cludadwy (PAT) yn ddiweddar i wirio fod offer bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Dadheintio Offer

Mae gan y practis ystafell dadheintio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod prosesau ar waith i leihau'r risg o draws-heintio.

Roedd yr ystafell wedi'i gosod yn addas i ganiatáu glanhau'r offer yn effeithiol. Roedd staff dynodedig yn gyfrifol ar lanhau a sterileiddio'r hol offer yn y practis.

Roedd y practis yn brysur iawn bob diwrnod ac o ganlyniad roedd trosiant uchel o offer deintyddol. Gwelsom nad oedd rhai o'r offer oedd wedi'u lapio yn y deintyddfeydd yn nodi'r dyddiad y cawsant eu glanhau ddiweddfaf a dyddiad dod i ben. Mae'r system bresennol angen cael ei gwella i sicrhau ei bod yn cydymffurfio a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru ⁴ (WHTM 01-05).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau fod offer sydd wedi'u lapio yn cynnwys y dyddiad y cawsant eu glanhau a'r dyddiad dod i ben, yn enwedig felly ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml.

Gwelsom gofnodion wedi'u cwblhau oedd yn dangos tystiolaeth o brofi a chynnal a chadw offer cyfarpar glanhau yn ddyddiol. Mae'r gwiriadau hyn yn sicrhau fod y peiriannu'n gweithio'n gywir, fel y gellir glanhau offer yn effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd y cofnodion hyn wedi'u cwblhau yn gyson a gwelsom fod rhai cofnodion nad oeddent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, fel y dyddiad a llofnod y person oedd yn cynnal y gwiriadau. Cynghorwyd y practis i wirio'r wybodaeth hon yn rheolaidd/gynnal archwiliadau o'r wybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cwblhau cofnodion ar gyfer profi a chynnal a chadw cyfarpar glanhau yn gyson, gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Gwelsom hefyd nad oedd math o brawf (prawf ffoil) i wirio fod yr offer glanhau yn gweithio'n gywir yn cael ei ddefnyddio. Roedd gan y practis gofnodwr data awtomatig ar gyfer yr offer, ond roedd yn aneglur os oedd yn cynnwys y math hwn o brawf. Cynghorwyd y practis i siarad â'r gwneuthurwr i wirio pa brofion rheolaidd oedd yn angenrheidiol.

⁴ Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddiheintio mewn practis gofal cynradd a practis deintyddol cymunedol.

Roedd sinciau pwrpasol i olchi dwylo er mwyn helpu i reoli heintiau ac roedd yr holl offer gwarchod personol addas ar gael i staff oedd yn gwneud gwaith diheintio. Hefyd, gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cyflawni hyfforddiant ar ddiheintio/rheoli haint.

Cynhaliodd y practis archwiliadau o ddiheintio ac maen nhw wedi dechrau defnyddio teclyn a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr awgrymwyd gan y canllawiau WHTM 01-05 penodol i Gymru. Cynghorwyd y practis i ymrwymo'n llawn i ddefnyddio'r teclyn archwilio a datblygu cynllun gwella i roi sylw i unrhyw faterion.

Gwaredu gwastraff

Roedd tystiolaeth a welwyd yn dangos bod gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis. Gwelsom ddogfennau i gadarnhau fod cytundeb gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Offer radiograffig (pelydr-x)

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-x) yn ddiogel. Roedd dogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennaeth yn ymwneud a gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw. Gwelsom dystiolaeth fod y deintyddion wedi cael hyfforddiant priodol ar warchod rhag ymbelydriad/ymbelydriad ìoneiddio. Nid oedd y dystysgrif hyfforddiant ar gael ar gyfer un o'r deintyddion ar ddiwrnod yr arolygiad, fodd bynnag roedd tystiolaeth arall oedd yn nodi fod hwn wedi'i gyflawni a derbyniwyd copi o'r dystysgrif hyfforddiant yn dilyn yr arolygiad. Gwelwyd fod y ffeil gwarchod rhag ymbelydriad yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion am offer a gweithdrefnau pelydr-x i staff eu dilyn. Gwelsom hefyd fod archwiliadau pelydr-x wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y delweddau sy'n cael eu cymryd.

Offer meddygol a meddyginiaeth mewn achos brys a meddyginiaeth

Roedd gan staff fynediad at offer adfywio a meddyginiaeth mewn achos o argyfwng claf (pasio allan) yn y practis. Roedd siartiau llif ar gyfer achosion brys meddygol wedi'u cynnwys ymhob deintyddfa i gynghori staff o'r weithdrefn i'w dilyn. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a gynhaliwyd yn y practis ar sut i drin achosion brys meddygol ac roedd rhai wedi'u penodi fel cymhorthydd cyntaf.

Gwelsom fod yr holl feddyginiaeth ar gyfer achosion brys mewn dyddiad. Dywedwyd wrthym fod staff y practis yn gwirio dyddiad dod i ben cyffuriau mewn achosion brys ac yn nodi'r dyddiadau yn y calendar pan fo angen

cyffuriau newydd. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu fod y practis yn gwella ei system ar gyfer sicrhau fod yr holl offer a meddyginiaeth adfywio yn ddiogel i'w ddefnyddio gan gofnodi gwiriadau a chynyddu pa mor aml mae'r rhain yn cael eu gwirio (dylai fod yn wythnosol) yn unol â Chanllawiau Cyngor Adfywio DU. Gwelsom hefyd fod dyddiad dod i ben padiau'r teclyn diffibrileiddio yn Awst 2015 a chynghorwyd y practis i gynnwys dyddiadau dod i ben yr holl offer priodol yn eu rhestr wirio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wella ei system ar gyfer sicrhau fod yr holl offer a meddyginiaeth adfywio yn ddiogel i'w ddefnyddio drwy gofnodi'r gwiriadau a gynhaliwyd, a chynyddu pa mor aml y cynhelir y rhain.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd yn fanwl ar gyfanswm o dri deg a phump o gofnodion cleifion ar draws y chwe deintydd. Ar y cyfan, gwelsom fod y cadw cofnod yn briodol, ond yn y sampl a welwyd nodwyd y gellir gwneud y gwelliannau canlynol:

- Cofnodwyd Archwilio Periodontol Sylfaenol (BPE), math o archwiliad ar feinweoedd y tu mewn i'r geg, yn anghyson a chafodd ei gofnod mewn manau gwahanol ar y system gyfrifiadurol gan ddibynnu ar y deintydd oedd yn gwneud y newidiadau
- Nid oedd gwybodaeth neu gyngor a roddwyd ar stopio ysmegu a sgrinio cancr y geg yn cael ei gofnodi bob amser. Mae'n arfer da i gofnodi trafodaethau gyda chleifion gan gynnwys unrhyw wybodaeth a chynghor a roddwyd yn ymwneud a'u hiechyd.
- Hefyd, gwelsom achosion lle nad oedd manylion am yr anesthetig a roddwyd i gleifion, fel rhif swp, wedi cael eu cofnodi fel rhan o gadw cofnodion da

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio system lle mae'r deintydd yn cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol fel ffordd o sicrhau a dogfennu fod hyn yn cael ei wirio a'i drafod gyda'r claf. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ffurflenni hanes meddygol bob amser yn cael eu llofnodi gan y claf ac yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd a chynghorwyd y practis i sicrhau fod hyn yn cael ei wneud yn gyson.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ystyried yr hepgoriadau a welwyd yn y sampl yr edrychwyd arni, dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion, yn benodol drwy gofnodi'r canlynol:

- **Cofnodi BPE yn gyson**
- **Gwybodaeth/cyngor yn ymwneud a stopio ysmegu a sgrinio cancr y geg**
- **Manylion am anesthetigion a roddwyd**
- **Dull cyson o wirion hanes meddygol.**

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd staff y siaradwyd â nhw ar y diwrnod eu bod yn hapus yn eu swyddi a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Gwnaethom hefyd siarad gyda'r deintydd sylfaen dan hyfforddiant a gadarnhaodd ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan y staff yn y practis. Awgrymwyd y dylai'r practis gadw cofnodion cyflawn ar statws brechu'r holl staff clinigol. Hefyd, roedd angen diweddarau'r weithdrefn gwyno.

Mae Practis Deintyddol Bryant dan berchnogaeth annibynnol y prif ddeintydd. Y prif ddeintydd a rheolwr y practis sydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd trosiant staff isel iawn, gan fod staff wedi bod yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm. Dywedodd staff y siaradom â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu swydd a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Gwnaethom hefyd siarad gyda'r deintydd sylfaen dan hyfforddiant a ddywedodd ei bod yn ddiolchgar iawn am yr holl help a chefnogaeth yr oedd wedi'i gael gan y prif ddeintydd a'r staff eraill yn y practis.

Gwelwyd fod gan y practis ystod o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn anelu at adolygu gweithdrefnau bob blwyddyn, ond fel sylwom nad oedd dyddiadau fersiwn a dyddiadau adolygu ar y polisiâu i nodi mai dyma'r rhai mwyaf diweddar. Gwelsom fod tudalen llofnodi staff wedi'i datblygu a dywedodd rheolwr y practis ei fod yn bwriadu gofyn i'r holl aelodau o staff lofnodi pob polisi er mwyn sicrhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Er nad oedd hyn wedi'i roi ar waith eto, cawsom ein sicrhau fod staff wedi cael eu hysbysu am y polisiâu, trwy drafodaethau mewn cyfarfodydd/cyfathrebu tîm a drwy hyfforddiant cyflwyno. Cyngorwyd y practis i gynnwys dyddiadau fersiwn ac adolygu ar yr holl bolisiâu a gweithdrefnau fel ei bod yn glir ai rhain yw'r fersiynau diweddaraf.

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff bob tua phedair i chwe wythnos. Roedd y practis hefyd yn defnyddio system anfon negeseuon ar-lein i gyfathrebu gwybodaeth rhwng holl aelodau o staff y practis. Gwelsom hon fel system dda er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn cyrraedd yr holl aelodau o staff rhwng cyfarfodydd, gan gynnwys staff rhan amser. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfod diweddar a oedd yn cynnwys disgrifiad cryno o'r testunau a drafodwyd a'r camau gweithredu. Cynghorwyd y practis i ddarparu cofnodion cyfarfod manylach, fel y gellir adolygu cofnodion clir o drafodaethau yn ddiweddarach. Dywedwyd wrthym fod staff yn cael eu hannog i godi unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond dywedodd staff hefyd y byddant yn teimlo'n gyfforddus i godi pryderon gyda'r prif ddeintydd neu reolwr y practis unrhyw bryd.

Edrychwyd ar sampl o ddau gofnod a oedd yn nodi fod staff yn cael gwerthusiadau'n flynyddol. Mae gwerthusiadau'n bwysig i sicrhau cymhwysedd staff ac i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi. Gwelsom nad oedd gan y prif ddeintydd werthusiad na chynllun datblygu personol ffurfiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn y practis, gan gynnwys y prif ddeintydd, gael gwerthusiadau.

Edrychwyd ar y trefniadau llywodraethu clinigol oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cynnal archwiliadau amrywiol a oedd wedi'u dogfennu. Dywedodd y prif ddeintydd eu bod hefyd wedi cynnal archwiliad adolygiad gan gymheiriaid o gofnodion clinigol gyda deintyddion eraill yn yr ardal. Nid oedd y practis wedi cynnal deintyddiaeth matrices aeddfedrwydd⁵ (math o archwiliad hunanasesu), ond dywedodd y prif ddeintydd eu bod yn ystyried defnyddio'r teclyn hwn. Roedd hyn yn golygu fod gan y practis drefniadau llywodraethu clinigol ar waith er mwyn i helpu sicrhau ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir.

⁵ Mae Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd (MMD) yn declyn datblygu practis ar gyfer y tîm deintyddol drwy Adran Deintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru. Mae teclyn hunan-werthuso MMS yn caniatáu i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio a meddwl am ansawdd y gofal a ddarperir mewn meysydd neu ddimensiynau allweddol.

<http://www.walesdeanery.org/index.php/en/practice-quality-improvement-programme/maturity-matrix-dentistry.html>

Edrychom ar sampl o wybodaeth staff yn y practis. Cadarnhawyd fod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cynnal Deintyddol Cyffredinol a bod y sampl o dystysgrifau a welwyd yn dangos bod gan staff yswiriant iawndal.

Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, mae'r deintyddion oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd dau ddeintydd nad oedd wedi derbyn eu tystysgrifau eto ac roedd dau ddeintydd arall angen tystysgrifau newydd gyda chyfeiriad diweddaraf AGIC. Gwnaed trefniadau ar gyfer hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom enghreifftiau o ddwy ffeil datblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant DPP) wedi'u cyflawni gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod gan staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi perthnasol i'w swyddi. Dywedwyd wrthym fod y practis yn annog staff yn weithredol i fynychu cyrsiau hyfforddi. Cynhaliwyd hyfforddiant craidd, fel hyfforddant ddiogelwch plant ac adfywio yn fewnol.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion oedd yn gweithio yn y practis dystysgrif y Gwasanaeth Datblygu a Gwahardd (DBS) wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Dywedwyd wrthym fod y prif ddeintydd ar hyn o bryd yn y broses o ddiweddarau eu tystysgrifau a bod ac roedd gan un deintydd dystysgrif trwy bractis arall, ond nid oedd hwn ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Trafodwyd hyn gyda'r practis, a bu iddynt gytuno i sicrhau fod staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriadau DBS er mwyn cydymffurfio a rheoliadau cyfredol. Nid oedd gwiriadau DBS wedi'u cyflawni ar gyfer y nyrsys gan eu bod wedi bod yn y practis am nifer o flynyddoedd. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau DBS; fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r deintyddion sy'n eu cyflogi yn gwirio fod y staff yn addas i'w cyflogi. Cynghorwyd y practis i gynnal gwiriadau DBS ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff.

Edrychwyd ar y trefniadau ar gyfer cofnodi damweiniau ac achosion. Gwnaethom sylwi nad oedd cofnodion damweiniau oedd wedi'u cyflawni yn cael eu tynnu o'r llyfr damweiniau a'u storio'n ddiogel er mwyn gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai cofnodion damweiniau sydd wedi'u cwblhau gael eu storio'n ddiogel ac ar wahân i'r llyfr damweiniau er mwyn sicrhau fod cyfrinachedd staff a chleifion yn cael ei gynnal.

Roedd trefniadau ar gyfer cefnogaeth iechyd galwedigaethol ar waith drwy'r bwrdd iechyd lleol. Edrychwyd ar ystod o gofnodion brechu staff a oedd yn

dangos bod y staff mwyaf clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed. Nid oedd yr holl gofnodion brechu ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd cofnodion brechu rhai aelodau o staff yn aneglur o ran eu statws imiwnedd yn erbyn hepatitis B. Nododd un cofnod a welwyd fod brechiad atgyfnerthu'n ddyledus ers tro. Trafodwyd gyda rheolwr y practis yr angen i sicrhau fod cofnodion brechu yn glir ac yn cael eu cadw ar gyfer yr holl staff clinigol, fel y gall y practis fod yn sicr fod staff wedi cael y warchodaeth briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r holl staff clinigol gael yr holl frechiadau angenrheidiol a dilyn canllawiau yn ymwneud a firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Dylai'r practis gadw cofnodion cyflawn o statws brechu'r holl staff clinigol.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cefnogi pryderon (cwynion) ac ymatebion iddynt. Hefyd, roedd gan y practis daflen grynodedb o gwynion a dderbyniwyd oedd yn rhoi manylion am natur y gwyn a'r dyddiadau pan gymerwyd camau gweithredu. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth yn ymwneud â chwynion yn cael ei gadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur ac roedd hyn wedi'i drefnu'n glir. Nid oedd cwynion llafar na chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi yn y practis a chynghorwyd y practis i gael y wybodaeth hon er mwyn canfod unrhyw themâu oedd yn codi.

Gwelwyd fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn gwyno clefion y GIG a elwir yn 'Gweithio i Wella' ac yn rhoi rhestr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gwyn. Fodd bynnag, sylwyd bod angen diweddarau graddfeydd amser i gydnabod ac ymateb i gwynion yn unol â Gweithio i Wella a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Hefyd, cynghorwyd y practis i gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymunedol a allai gynnig cefnogaeth eiriolaeth i gleifion pe byddai angen. Dylai'r practis ystyried darparu gwahaniaeth cliriach rhwng y sefydliadau i gleifion gysylltu â nhw gan ddibynnu ar p'un ai a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno fel bod y graddfeydd amser o ran cydnabod ac ymateb i gwynion yn cydymffurfio gyda threfniadau Gweithio i Wella'r GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Dylid cynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymunedol ar y weithdrefn gwynion.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn amlwg yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda i ddarparu amgylchedd diogel i gleifion sy'n derbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau fod gwybodaeth electronig am gleifion yn ddiogel ac yn gyfrinachol, ond awgrymwyd y dylai gwybodaeth am gleifion sy'n cael ei storio mewn cabinet ffeilio gael ei gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio er mwyn rhwystro mynediad heb ei awdurdodi.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol tref Treorci. Mae gan y practis bump deintyddfa, dau ar y llawr gwaelod a thri ar y llawr cyntaf. Nid oes gan y practis faes parcio pwrpasol, ond mae maes parcio cyhoeddus ar gael yn gyfagos i'r practis.

Mae mynediad i'r practis yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn gan fod y drws ffrynt yn lefel a'r llwybr troed y tu allan. Roedd fframiau'r drysau wedi cael eu lledu i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Nid oed lifft i'r llawr cyntaf, ond gellir gweld defnyddwyr cadair olwyn yn y deintyddfeydd ar y llawr gwaelod.

Cadarnhaodd taith o amgylch yr adeilad fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y practis yn lân ac yn daclus trwyddo i gyd. Roedd y man aros a'r dderbynfa yn fawr ac o faint addas ar gyfer y nifer o ddeintyddfeydd.

Roedd gan y practis un toiled i gleifion oedd yn fawr ac yn hygyrch ac un toiled staff/cleifion unrhyw ar y llawr gwaelod. Roedd y ddau doiled yn amlwg yn lân ac roedd cyfleusterau addas i olchi dwylo i reoli haint. Gwnaethom sylwi fod y canllaw addasadwy yn y toiled oedd yn hygyrch i gleifion yn rhydd ac angen ei dynhau er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud y canllaw sydd yn y toiled hygyrch i gleifion yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd arwydd gydag oriau agor y practis a rhif cyswllt mewn achos brys. Roedd enwau a chymwysterau aelodau o staff wedi'u harddangos yn y ffenestr yn y practis. Arddangoswyd rhifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y dderbynfa a'r man aros, ond sylwyd fod rhestr o brisiau gwasanaethau preifat ar goll. Eglurodd staff fod triniaethau preifat yn cael eu trafod gyda'r deintydd a bod prisiau triniaethau'n cael eu darparu. Fodd bynnag, cynghorwyd y dylai rhestr o brisiau preifat gydag amcangyfrif o gost triniaethau fod yn weladwy i gleifion fel nad oes yn rhaid iddynt ofyn am y wybodaeth hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Arddangos rhestr o brisiau preifat (gydag amcangyfrif o gostau os yw'n briodol) fel ei fod yn amlwg i gleifion.

Roedd arwyddion yn nodi'r allanfeydd tân ac roedd cofnodion cynnal a chadw yn nodi fod diffoddwyr tan wedi cael eu harolygu'n briodol. Ni edrychom yn fanwl ar y trefniadau eraill ar gyfer gwarchod ac atal tan yn ystod yr arolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r practis yn gyfrifol am sicrhau fod systemau gwarchod rhag tan ar waith yn unol â deddfwriaeth⁶ a threfniadau ar gyfer gwasanaethau a phrofi'r eitemau hyn yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau diogelwch staff a chleifion mewn achos o dân.

Roedd cofnodion electronig cleifion yn cael eu cadw wrth gefn ar serfiwr oddi ar y safle. Roedd gwybodaeth arall am gleifion, gan gynnwys ffurflenni hanesyddol meddygol a chynlluniau triniaeth ar bapur yn cael eu cadw mewn cabinetau ffeilio y tu ôl i'r ddesg dderbynfa. O siarad gyda staff, canfuwyd nad oedd y cabinetau hyn yn cael eu cloi fel mater o drefn ar ddiwedd y dydd a gwelsom fod drâr uchaf y cabinet wedi'i dynnu gan ei fod wedi torri. Trafodwyd yr angen i sicrhau diogelwch y wybodaeth hon a daeth staff o hyd i allwedd i ar gyfer y cabinetau ar ddiwrnod yr arolygiad a chytuno i archebu cabinet ffeilio newydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

⁶ Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tan) 2005 yn darparu deddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch tân mewn safleoedd nad ydynt yn ddomestig.

Mae'n rhaid sicrhau diogelwch gwybodaeth am gleifion, gan gynnwys yr holl gofnodion ar bapur, drwy gloi'r cabinetau ffeilio lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio, pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Dylid amnewid y cabinet ffeilio sydd yn storio gwybodaeth am gleifion sydd wedi torri, fel y gellir ei gloi.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr arolygiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Bryant, gan gynnwys graddfeydd amser.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygiad deintyddol sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Bryant

Dyddiad yr Arolygiad: 7 Gorffennaf 2015

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau Gweithredu i'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Graddfa Amser
Profiad y Claf				
7	Dylai'r practis arddangos y weithdrefn gwyno llawn ac ystyried sut y gellir gwneud hwn yn hygyrch i gleifion (e.e.gan gynnwys yr holl wybodaeth am gwyno ar boster neu arddangosfa ganolog). [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.5]	Mae'r poster gyda'r weithdrefn gwyno wedi'i symud i leoliad mwy amlwg yn y ddwy ystafell aros	Deb James	Wedi'i gyflawni
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	Dylai'r practis sicrhau fod offer sydd wedi eu lapio yn cynnwys dyddiad eu glanhau ac yn enwedig ar gyfer y rheiny nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, dyddiad dod i	Hysbyswyd y staff. Stampiau dyddiad wedi'u harchebu. Mae systemau newydd wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys rhestr wirio y mae'n rhaid i staff ei	Rob Bryant	1/9/15

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau Gweithredu i'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Graddfa Amser
	ben. [WHTM 01-05 paragraff 1.24]	lofnodi. Bydd rheolwr y practis yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau fod hyn yn cael ei wneud.		
8	Dylid cwblhau cofnodion ar gyfer profi a chynnal a chadw offer glanhau yn ddyddiol yn gyson, gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol. [WHTM 01-05 paragraff 4.16-4.19]	Hysbyswyd staff am bwysigrwydd cwblhau'r cofnodion. Bydd rheolwr y practis yn archwilio'r llyfrau cofnodi'n rheolaidd er mwyn sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni'n gyson.	Deb James	Wedi'i gyflawni
10	Dylai'r practis wella'r system ar gyfer sicrhau fod yr holl offer a meddygaeth adfywio'n ddiogel i'w ddefnyddio gan gofnodi'r gwiriadau a gynhaliwyd a pha mor aml y cynhelir gwiriadau. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3]	Yr aelod o staff perthnasol wedi'i hysbysu, gweithdrefnau newydd ar waith I'w drafod yn y cyfarfod practis nesaf	Rob Bryant	Wedi'i gyflawni
10	O ystyried yr hepgoriadau a ganfuwyd yn y sampl yr edrychwyd arni, dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion, yn benodol drwy gofnodi'r canlyno: <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi BPE yn gyson • Gwybodaeth/cyngor yn 	O drafod gyda'r staff clinigol rydym wedi penderfynu ar un lleoliad yn y nodiadau ar gyfer cofnodi BPE, er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn nawr yn cynnal archwiliadau mewnol mwy rheolaidd i ddarparu data ar gad nodiadau ar y materion sydd ar ôl Rydym hefyd wedi trafod y cofnodion hanes meddygol i sicrhau fod y claf a'r clinigwr yn	Rob Bryant	Archwiliadau misol yn dechrau ym mis Medi

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau Gweithredu i'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Graddfa Amser
	<p>ymwneud a stopio ysmygu a sgrinio ar gyfer cancr y geg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion am anesthetigion a roddwyd • Dull cyson o wirio hanes meddygol <p>[4 Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 3.5]</p>	<p>Ilofnodi/cydlofnodi, bydd hyn hefyd yn cael ei archwilio</p>		
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	<p>Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn y practis, gan gynnwys y prif ddeintydd gael gwerthusiadau.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.61]</p>	<p>Mae gwerthusiadau 360 gradd yn cael eu datblygu.</p> <p>I drafod gyda thrydydd partion - BDA/LHB ac ato</p>	Rob Bryant/Deb James	Disgwylir y gwerthusiadau nesaf ar 1/10/15
13	<p>Dylid storio cofnodion damweiniau wedi'u cwblhau yn ddiogel ac arwahan i'r llyfr damweiniau er mwyn sicrhau fod cyfrinachedd staff a chleifion yn cael ei gadw.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Deddf Diogelu Data 1998]</p>	<p>Mae cofnodion damweiniau cyflawn nawr yn cael eu storio'n ddiogel ac arwahan i'r llyfr damweiniau</p>	Deb James	Wedi'i gyflawni
14	Mae'n rhaid i'r holl staff clinigol gael yr holl	Yr holl staff perthnasol i fynychu Ysbyty Dewi	Rob Bryant/Deb	Trwy gydol

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau Gweithredu i'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Graddfa Amser
	<p>frechiadau angenrheidiol a dilyn canllawiau yn ymwneud a firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.</p> <p>Dylai'r practis gadw cofnodion cyflawn ar statws brechu'r holl staff.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2]</p>	Sant i adolygu lefelau brechu	James	mis Medi
14	<p>Dylid diweddarau'r weithdrefn gwyno fel bod y graddfeydd amser ar gyfer cydnabod cwynion ac ymateb iddynt i gydymffurfio a threfniadau Gweithio i Wella y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.</p> <p>Dylid cynnwys manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymunedol ar y weithdrefn gwyno.</p> <p>Rheoliadau (Diwygiedig) Deintyddiaeth Breifat 2011 adran 15(4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3; Gweithio i Wella y GIG]</p>	Mae'r weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddarau	Deb James	Wedi'i gyflawni
Ansawdd yr Amgylchedd				
15	<p>Dylid gwneud y canllaw yn y toiled sy'n hygyrch i gleifion yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1]</p>	Mae'r canllaw yn y toiled i gleifion wedi'i wneud yn ddiogel i'w ddefnyddio	Deb James	Wedi'i gyflawni

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau Gweithredu i'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Graddfa Amser
16	Arddangos rhestr o brisiau preifat (gyda brasamcan o gostau os yw'n briodol) fel ei fod yn weladwy i'r cleifion. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.4]	I drafod gyda staff clinigol unwaith mae pawb ar gael yn dilyn eu gwyliau blynyddol. Rhoddir gwybod i'r holl gleifion preifat am opsiynau a darperir prisiau/costau perthnasol	Rob Bryant	Mis Medi
16	Mae'n rhaid sicrhau diogelwch gwybodaeth am gleifion, gan gynnwys cofnodion ar bapur, drwy gloi cabinetau ffeilio lle mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio, pan nad yw'n cael ei ddefnyddio. Dylid amnewid y cabinet ffeilio sy'n storio gwybodaeth am gleifion sydd wedi torri, fel y gellir ei gloi. [Safonau Iechyd a Gofal 4.2; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1-4.2]	Mae cabinet ffeilio wedi cael ei archebu ac mae'r holl gabinetau sydd ar ôl yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	Deb James	Wedi'i gyflawni

Cynrychiolwr y Practis:

Enw (print): ..Robert Bryant.....

Teitl: ..Practice owner.....

Dyddiad: ..17th August 2015.....